Unawd (o dan 8)
2il Rebecca Thomas
3ydd Danielle Pryce

Llefaru (o dan 8)
3ydd Ellis Griffiths

Llefaru (8-10 oed – iaith gyntaf)
1af Caryl Daker

Unawd (10-12)
1af Tirion Lewis

Llefaru (10-12 oed – iaith gyntaf)
1af Charlotte Griffiths

Alaw Werin Unigol (o dan 12 oed)
2il Charlotte Griffiths
3ydd Tirion Lewis

Ymgom (dan 12 oed)
3ydd Charlotte Griffiths a Trystan Davies

Parti unsain (dan 12 oed)
4ydd fu ein hanes y tro hwn.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu.

Draw yn yr ysgol bu Mrs Joyce Bowen yn cynnal sesiwn yr Urdd gyda ni. Dawnsio llinell oedd hi y noson honno. Cafwyd llond trol o hwyl a sbri gyda sawl un yn hen law ar y symudiadau cyn diwedd y sesiwn. Llawer o ddiolch i Mrs Bowen.

Cafwyd syndod a rhyfeddu pan ddaeth Miss Helen Davies a'i chasgliad o 400+ o rwberi i'w dangos i ni mewn sesiwn arall o'r Urdd. Roedd yn cofio o ble y cafodd pob un ohonynt er mai dim ond 4 oed oedd hi pan ddechreuodd gasglu. Roedd y plant wedi eu mesmareiddio. Diddorol iawn Miss Davies!